TACTEG
GWYDDONIAETH

# CWESTIYNAU CWIS:
## Bioleg - Bwyd a maethiad: L5-7

Ysgrifenna'r ateb cywir yn y blwch a ddarperir.

1: Y cyfansoddyn bwyd sydd ei angen er mwyn i'r corff dyfu ac atgyweirio'i hun yw:

2: Mae moleciwlau bwyd sy'n cael eu hamsugno gan y coluddyn i'r llif gwaed yn cael eu cludo yn gyntaf i'r organ hwn yn y corff.

3: Mae diet sy'n cynnwys y gyfran gywir o garbohydradau, proteinau, brasterau, fitaminau, halwynau a ffibr yn:

4: Y tiwb hwn sy'n cysylltu'r geg a'r stumog. Mae'n defnyddio tonnau cyhyrol i wthio'r bwyd yn ei flaen.

5: Mae'r cyfansoddyn hwn mewn bwyd yn gweithio fel brasfwyd.
Nid yw'n cael ei dreulio ac mae'n helpu i wneud y daith treulio bwyd yn rhwyddach.

6: Mae'r rhan hon o'r system dreulio yn amsugno dŵr yn ôl i'r llif gwaed.


©BBC

7: Yr organ sydd ar goll o'r drefn isod yw:

ceg -> _______________ -> coluddyn bach -> coluddyn mawr -> anws

8: Mae'r cyfansoddion hyn mewn bwyd yn cynnal prosesau yn y celloedd a iechyd. Os nad oes digon o'r cyfansoddion hyn, mae'n achosi clefydau diffyg maeth.

9: Mae pecyn grawnfwyd yn nodi ei fod yn rhoi 408kJ am bob 100g. Pa werth yn y bwyd y mae hyn yn ei ddangos?

10: Yr enw am y broses o dorri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd yw:

11: Sylweddau cemegol yw'r rhain sy'n torri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd.

12: I ba sylwedd y caiff protein ei dreulio?

13: I ba sylweddau y caiff braster ei dreulio?

14: I ba sylwedd y caiff carbohydrad ei dreulio?


©BBC

# ATEBION CWIS:
## Bioleg - Bwyd a maethiad: L5-7

Ysgrifenna'r ateb cywir yn y blwch a ddarperir.

1: Y cyfansoddyn bwyd sydd ei angen er mwyn i'r corff dyfu ac atgyweirio'i hun yw:

**Protein**

2: Mae moleciwlau bwyd sy'n cael eu hamsugno gan y coluddyn i'r llif gwaed yn cael eu cludo yn gyntaf i'r organ hwn yn y corff.

**Iau/Afu**

3: Mae diet sy'n cynnwys y gyfran gywir o garbohydradau, proteinau, brasterau, fitaminau, halwynau a ffibr yn:

**Gytbwys**

4: Y tiwb hwn sy'n cysylltu'r geg a'r stumog. Mae'n defnyddio tonnau cyhyrol i wthio'r bwyd yn ei flaen.

**Y bibell fwyd**

5: Mae'r cyfansoddyn hwn mewn bwyd yn gweithio fel brasfwyd.
Nid yw'n cael ei dreulio ac mae'n helpu i wneud y daith treulio bwyd yn rhwyddach.

**Ffibr**

6: Mae'r rhan hon o'r system dreulio yn amsugno dŵr yn ôl i'r llif gwaed.

**Y coluddyn mawr**



©BBC

7: Yr organ sydd ar goll o'r drefn isod yw:

ceg -> _______________ -> coluddyn bach -> coluddyn mawr -> anws

**Stumog**

8: Mae'r cyfansoddion hyn mewn bwyd yn cynnal prosesau yn y celloedd a iechyd. Os nad oes digon o'r cyfansoddion hyn, mae'n achosi clefydau diffyg maeth.

**Fitaminau**

9: Mae pecyn grawnfwyd yn nodi ei fod yn rhoi 408kJ am bob 100g. Pa werth yn y bwyd y mae hyn yn ei ddangos?

**Gwerth egni'r bwyd**

10: Yr enw am y broses o dorri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd yw:

**Treulio**

11: Sylweddau cemegol yw'r rhain sy'n torri lawr moleciwlau mawr anhydawdd o fwyd i foleciwlau bach hydawdd.

**Ensymau**

12: I ba sylwedd y caiff protein ei dreulio?

**Asidau amino**

13: I ba sylweddau y caiff braster ei dreulio?

**Asidau brasterog a glyserol**

14: I ba sylwedd y caiff carbohydrad ei dreulio?

**Glwcos**



©BBC